
# Cynghorau

## Ysgol Betws Gwerful Goch




# School Councils

# Cyngor Ysgol/ School Council



# Cyngor Ysgol

Dyma aelodau ein Cyngor Ysgol yn ysgol Betws Gwerful Goch. Cawsom ni ein hethol gan ein cyd-ddisgyblion ar ddechrau'r flwyddyn. Rydym eisioes wedi trefnu gweithgareddau ar gyfer Diwrnod Plant Mewn Angen ac wythnos Iechyd Meddwl Plant. Rydym hefyd yn cynnig syniadau am godi arian ar gyfer elusennau ac ar gyfer yr ysgol. Rydym yn cyfarfod unwaith bob mis er mwyn trafod barn a syniadau ein disgyblion yn Ysgol Betws Gwerful Goch a rhannu syniadau ar sut medrwn gwella a datblygu'r ysgol. Yna caiff y trafodaethau hyn eu bwydo'n ôl i weddill yr ysgol trwy'r cod QR ar ein hysbysfwrdd Cyngor Ysgol, trwy dudalen gwefan hon, trafodaethau ystafell ddosbarth a gwasanaethau. Rydym wedi Cynnal sawl gwasanaeth ers dechrau'r flwyddyn ac yn rhannu hawl y mis gyda phlant yr ysgol.

Mrs Blackford sy'n cefnogi ni ar y Cyngor ac mae hi'n rhannu gyda ni materion a godwyd yn ystod ein cyfarfodydd gyda'r athrawon a'r pennaeth, Mrs Thomas.

Mae'n bosibi i blant cyflwyno'u awgrymiadau ar sut i wella ein hysgol fach ni mewn sawl ffordd megis ysgrifennu syniad ar ddarn o bapur a'i phostio i mewn i flwch 'Sylwadau Y Cyngor Ysgol.'

Yn fwy ddiweddar, rydym yn ysgrifennu Cylchlythyr Cyngor Ysgol bob hanner tymor er mwyn diweddaru ein rhieni a'r gymuned leol gyda'r gwaith rydym wedi bod yn gwneud yn yr ysgol.

# SCHOOL COUNCIL

We are the members of our School Council at Betws Gwerful Goch school. We were elected by our classmates at the beginning of the year. We have already organized activities for Children in Need Day and Children's Mental Health week. We also offer ideas for raising money for charities and for the school. We meet once a month to discuss the opinions and ideas of our pupils at Ysgol Betws Gwerful Goch and share ideas on how we can improve and develop the school. These discussions are then fed back to the rest of the school via the QR code on our School Council notice board, through this website page, classroom discussions and assemblies. We have held several services since the beginning of the year and share the right of the month with the school children.

Mrs Blackford supports us on the Council and she shares with us issues raised during our meetings with the teachers and the headteacher, Mrs Thomas.

It is possible for children to submit their suggestions on how to improve our little school in many ways such as writing an idea on a piece of paper and posting it into the 'School Council Comments' box.

More recently, we write a School Council Newsletter every half term in order to update our parents and the local community with the Work we have been doing at the school.

# CYNGOR ECO

Rydym ni hefyd yn cynrychioli llais a barn yr holl ddisgyblion er mwyn edrych ar ôl amgylchedd yr ysgol. Mae ganddyn ni rôl bwysig yn hybu ein hysgol i fod yn wyrdd. Aelodau Cyngor Ysgol Betws Gwerful Goch sy'n cynrychioli llais ein disgyblion. Rydym ni'n dinasyddion egwyddorol gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd. Rydym yn trafod beth sydd angen i ni fel cynrychiolwyr cyngor eco weithio arno ond hefyd i godi ymwybyddiaeth o'r angen i ofalu am ein hamgylchedd a'n byd. Mae'r Cyngor Eco yn trefnu nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer yr ysgol gyfan.

Rydyn ni'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwybod am y naw maes pwysig yma:

1. Dinasyddiaeth Fyd-eang
2. Sbwriel
3. Lleihau Gwastraff (e.e. ailgylchu)
4. Ynni
5. Dŵr
6. Tir yr ysgol
7. Bioamrywiaeth
8. Trafnidiaeth
9. Iechyd, Llesiant a Bwyd

Sut benderfynon beth i'w wneud yn ystod y flwyddyn?

Adolygiad amgylcheddol o'r ysgol - taith o gwmpas yr ysgol i weld beth oedd y Cyngor Eco yn gallu gwella ac i weld beth sydd yn dda. Wedyn dewison bwyntiau i wella yn y naw maes eco a gosod y rhain yn y cynllun gweithredu eco am y flwyddyn.

# ECO COUNCIL

We also represent the voice and opinion of all the pupils in order to look after the school environment. We have an important role in promoting our school to be green. Ysgol Betws Gwerful Goch Council members represent the voice of our pupils. We are informed principled citizens who are ready to be citizens of Wales and the world. We discuss what we as eco council representatives need to work on but also to raise awareness of the need to take care of our environment and our world. The Eco Council organizes a number of events and activities for the whole school.

We make sure we know about these nine important areas:

1. Global Citizenship
2. Rubbish
3. Reduce Waste (e.g. recycling)
4. Energy
5. Water
6. School land
7. Biodiversity
8. Transport
9. Health, Wellbeing and Food

How did we decide what to do during the year?

Environmental review of the school - a tour around the school to see what the Eco Council was able to improve and to see what is good. Then select points to improve in the nine eco areas and place these in the eco action plan for the year.

# EIN TARGEDAU/ OUR TARGETS



- Lleihau sbwriel diangen
- Arbed Ynni – cofio diffodd trydan
- Ailgylchu
- Arbed y defnydd o ddŵr
- Tir yr ysgol – plannu planhigion

Rydym wedi bod yn brysur yn creu posteri i atgoffa disgyblion i arbed ynni trwy ddiffodd goleuadau pan nad ydynt yn ei hangen ac i gau tapiau'n dynn. Rydym wedi bod mewn cyswllt gyda Cyngor Sir Ddinbych er mwyn cael biniau bwyd pwrpasol ac rydym wedi sicrhau biniau ailgylchu papur ymhob dosbarth ac yn gyfrifol am eu gwagu ar ddiwedd pob wythnos.

- Reduce unnecessary litter
- Save Energy - remember to switch off electricity
- Recycling
- Save the use of water
- School grounds - planting plants

We have been busy creating posters to remind pupils to save energy by turning off lights when they don't need it and to close taps tightly. We have been in contact with Denbighshire County Council in order to get dedicated food bins and we have secured paper recycling bins in each class and are responsible for emptying them at the end of each week.

# LLYSGENHADON IAITH/ LANGUAGE AMBASSADORS



# LLYSGENHADON IAITH/ LANGUAGE AMBASSADORS

Mae'r llysgenhadon iaith yn hybu pwysigrwydd Cymreictod yn yr ysgol, adref ac yn y gymuned. Ni sy'n gyfrifol am redeg gemau buarth gyda holl blant yr ysgol yn ystod amseroedd chwarae. Rydym yn annog disgyblion i ddefnyddio'r iaith ar y buarth ac o amgylch yr ysgol. Rydym hefyd yn diweddaru'r wal llefaredd yn rheolaidd er mwyn sicrhau datblygiad yr iaith yn yr ysgol.

We as the language ambassadors promote the importance of Welsh at school, at home and in the community. We are responsible for running yard games with all the school's children during play times. We encourage pupils to use the language in the yard and around the school. We also regularly update the speech wall in order to ensure the development of the language in the school.

# LLYSGENHADON CHWARAEON/ SPORTS AMBASSADORS




# LLYSGENHADON CHWARAEON/ SPORTS AMBASSADORS

Rydym ni yn arwain sesiynau chwaraeon gyda phlant yr ysgol ac yn trefnu gweithgareddau hwylus ar gyfer ein sesiynau dyddiol 'Dal i fynd'.

Yn ddiweddar, rydym wedi mynychu cwrs yn Ysgol Brynhyfryd er mwyn datblygu ein sgiliau arweinyddiaeth a chasglu syniadau ar sut i ddatblygu chwraeon yn yr ysgol ac rydym yn hynod o gyffrous i roi ein syniadau ar waith. Rydym yn cyfarfod unwaith bob hanner tymor er mwyn rhannu ein syniadau gyda'r uwch dim rheoli ac am gysylltu gyda phobl lleol yr ardal er mwyn gwahodd nhw i mewn i'r ysgol a chynnal sesiynau chwaraeon i'n dysgwyr er mwyn rhoi blas ar wahanol chwaraeon i ddysgwyr ein hysgol.


We lead sports sessions with the school children and organize exciting activities for our daily 'Keep going' sessions'.

We have recently attended a course at Ysgol Brynhyfryd in order to develop our leadership skills and gather ideas on how to develop teams in the school and we are extremely excited to put our ideas into practice. We meet once every half term in order to share our ideas with the senior management and to connect with local people in the area in order to invite them into the school and hold sports sessions for our learners in order to give them a taste of different sports for our school's students.




# DREIGIAU DIGIDOL/ DIGITAL DRAGONS






# DREIGIAU DIGIDOL/ DIGITAL DRAGONS

Rydym yn;

• Cefnogi dosbarthiadau gyda sgiliau TGCh a sgiliau'r fframwaith.

• Uwch-sgilio ffrindiau ac athrawon.

• Gofalu am y cyfarpar, sicrhau eu bod wedi storio yn ddiogel ac yn barod i ddefnyddio ar lawr y dosbarthiadau.

• Hybu e-diogelwch ar draws yr ysgol.

Our Vision

Support classes with developing ICT skills as well as the skills from the framework.

Upskill friends/ teachers and all classes.

Ensure that resources are well cared for, stored safely and are ready to use on the classroom floor.

Promote e-safety throughout the school.